

Rhifyn 58
At Eich Dant

Cyffrous!

Hydref 31, 2018 – Tachwedd 4, 2018

Noson agoriadol anhygoel

Sioe ffasiwn arbennig

Gweithdai diddorol

Cerfluniau gwych

Hefyd:

- 🍫 siop llyfrau gydag awduron yn llofnodi eu llyfrau
- 🍫 cyfle i blant a phobl ifanc greu bwyd blasus
- 🍫 digonedd o siocledi i'w blasu
- 🍫 bwydydd o Japan

a mwy!



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
noson agoriadol	y noson gyntaf, pan fydd y digwyddiad yn dechrau	opening night
mawreddog	crand	grand
gweithdai	lluosog gweithdy ; grwpiau o bobl yn gweithio ar rywbeth	workshops
cerfluniau	lluosog cerflun ; lluniau wedi'u cerfio	sculptures
arddangosiadau	lluosog arddangosiad ; lle mae rhywun yn dangos sut i wneud rhywbeth	demonstrations
diwylliant	ffordd o fyw, hanes, llenyddiaeth, celf	culture
cynhyrchwyr	lluosog cynhyrhydd ; pobl sy'n cynhyrchu rhywbeth	producers
llofnodi	ysgrifennu enw	(to) sign

Hir!



Dim ond eiliadau mae'n cymryd i lyncu darn o siocled, ond mae cynhyrchu siocled yn cymryd amser hir.

I ddechrau ...

- ... mae siocled yn cael ei wneud o ffa arbennig. Mae'r ffa'n tyfu ar goeden drofannol o'r enw *Theobroma cacao*. Enw arall yw'r goeden coco.
- Mae'r ffrwythau'n tyfu'n syth o'r canghennau, fel rydych chi'n gallu gweld o'r llun hwn.



Ar y chwith mae'r ffrwyth anaeddfed. Ar y dde mae'r ffrwyth sydd bron yn aeddfed.

- Pan fydd y ffrwythau'n aeddfed, mae'r ffermwyr yn eu casglu nhw. Fel arfer, maen nhw'n defnyddio *machete* i'w torri o'r coed.



- Ar ôl eu casglu, maen nhw'n agor y ffrwythau â llaw, a'r tu mewn iddyn nhw, mae pwlp gwyn sy'n cynnwys tua 30-40 o ffa. Mae'r rhain yn chwerw iawn. Dydyn nhw ddim yn flasus fel y siocled byddan nhw'n ei greu.



Y ffa coco - y tu mewn i'r ffrwyth.

Yna ...

... mae'r ffermwyr yn eplesu'r ffa. Maen nhw'n gosod y ffa mewn biniau arbennig neu maen nhw'n eu rhoi nhw o dan ddail banana i'w heplesu. Yn ystod y broses, mae'r ffa'n troi'n llai chwerw.

- Ar ôl cael eu heplesu, mae'r ffa'n cael eu sychu yn yr haul am ddyddiau. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r blas yn dal i ddatblygu.
- Mae'r ffa'n cael eu cludo i ffatri wedyn.

Yno ...

- ... mae'r ffa'n cael eu glanhau. Rhaid gwneud yn siwr nad oes brigau neu gerrig neu unrhyw sbwriel arall yng nghanol y ffa!

Yn dilyn hyn ...

- ... mae'r ffa'n cael eu rhostio. Mae'r blas yn gwella yn ystod y broses ac maen nhw'n troi'n dywyllach.




Nesaf ...

- ... rhaid cracio'r ffa a chael gwared ar y plisgyn ar y tu allan. Ar ôl gwneud hyn, mae'r ffa yn ddarnau bach. Mae'r rhain yn flasu ond maen nhw'n dal yn chwerw.



Y camau nesaf ...

- ... rhaid malu'r darnau bach yn bâst ac yna rhaid ychwanegu pethau fel siwgr, menyn coco, llaeth neu fanila. Bydd hyn yn dibynnu ar y rysáit.
- Gan nad yw'r siocled yn llyfn yn ystod y cam hwn, rhaid ei roi drwy beiriant arbennig sy'n ei droi a'i gymysgu.



Yna,

- ... mae'r siocled yn cael ei oeri ... yna'i boethi ... yna'i oeri ... yna'i boethi ... ac yn y blaen nes ei fod yn llyfn ac yn edrych yn dda.

Yn olaf ...

Mae'r siocled yn cael ei roi mewn i fowld a'i oeri. Yna, pan fydd yn barod, mae'n cael ei dynnu o'r mowld ac, ar ôl ei becynnu, mae'n cael ei werthu i bobl fel chi!

Ydy, mae'n broses hir.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
trofannol	yn tyfu yn y trofannau	tropical
canghennau	lluosog cangen ; rhannau o'r goeden sy'n tyfu o'r boncyff	branches
anaeddfed	ddim yn barod i'w tynnu	unripe
aeddfed	yn barod i'w tynnu	ripe
chwerw	heb fod yn felys	bitter
eplesu	proses lle mae bacteria a burum yn creu newidiadau cemegol yn ffa coco, sy'n gwella'r arogl a'r blas	(to) ferment
brigau	lluosog brigyn ; canghennau bach sy'n tyfu o'r prif ganghennau	twigs
cael gwared â	gwaredu rhywbeth	(to) get rid of
malu	gwneud yn ddarnau mân iawn	(to) grind

Unigryw!

Beth yw'ch hoff siocled chi?

Siocled
tywyll?

Siocled
llaeth?

Siocled
gwyn?

Bar o
siocled?

Bocs o
siocledi?

Pa gwmni sy'n gwneud y siocled gorau yn eich barn chi?

Tybed ydych chi wedi enwi cwmni siocled o Gymru?

Gwylwch y clip yma ac yna ewch i'r **Tasgau**.

Fideo: <https://cy-gb.facebook.com/HenoS4C/videos/996379440445563/>

Defnyddiol!

Siocled yw un o'r bwydydd mwyaf diddorol ar y blaned!

Irai pobl, rhywbeth i'w fwyta yn unig ydyw,

Ond mae siocled yn llawer mwy defnyddiol na hynny! Ydych chi wedi clywed am y

Car arbennig sy'n cael ei bweru gan siocled, er enghraifft? Hefyd mae rhai pobl yn dipio cig moch mewn siocled fel bod yn siocled yn ei

Lapio'n llwyr. Mmm! Mae rhai pobl yn dweud ei bod hi'n bosib creu

Egni neu Ynni drwy ddefnyddio siocled!

Dim ond rhai o'r pethau amrywiol gallwch chi eu gwneud gyda siocled sydd wedi eu rhestru uchod. Mae'r posibilïadau'n ddi-ddiwedd.

persawr
siocled

caws blas
siocled

siampw
siocled

dillad
siocled

creision
siocled

gwaed ffug
(mewn
ffilmiau)

sebon
siocled

pâst
danedd
siocled

Car arbennig - yr ecoF3

Dyma i chi gar diddorol – car rasio Fformiwla 3 sydd wedi ei greu o lysiau. Mae'r corff wedi ei greu o datws, yr olwyn lywio o foron a sedd y gyrrwr o ffa soya ac, yn rhyfeddol, mae'r injan yn defnyddio olew llysiau a braster siocled!

Dyma'r car rasio eco cyntaf ond, yn anffodus, nid yw'n cael cystadlu mewn rasys ceir gan nad yw'r tanwydd yn cadw at y rheolau.

Mae'n gallu cyrraedd 145 m.y.a.

Fideo: <https://www.youtube.com/watch?v=piGsqwKIPmY>

Egni neu Ynni o Siocled

Mae llawer o ddadlau wedi bod ynglŷn â'r ffordd orau o greu egni neu ynni. Mae rhai o blaid ynni'r haul ac maen nhw'n defnyddio paneli haul i'w greu. Mae pobl eraill yn meddwl mai ynni gwynt yw'r gorau a'r glanaf ac mae pobl eraill yn canmol ynni niwclear. Yn sicr, mae manteision ac anfanteision i'r dulliau hyn o greu ynni.

Ond faint o bobl sydd wedi ystyried ynni siocled?






Wel, yn 2006, aeth gwyddonwyr ym Mhrifysgol Birmingham ati i greu ynni siocled drwy ddefnyddio'r gwastraff sy'n cael ei greu wrth gynhyrchu siocled. Drwy gyfuno bacteria e-coli â'r gwastraff hwn, llwyddon nhw i greu hydrogen, sy'n danwydd glân iawn.






Nid yw'r cynllun wedi cael ei ddatblygu ymhellach ar hyn o bryd – rhywbeth i'r dyfodol, efallai – ond mae'n siwr y byddai pawb yn fodlon helpu gyda'r prosiect drwy fwyta cymaint o siocled â phosib!






Geirfa







Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
olwyn lywio	yr olwyn mae'r gyrrwr yn ei defnyddio i lywio'r car	steering wheel
tanwydd	rhywbeth sy'n cael ei ddefnyddio i greu ynni neu wres	fuel
o blaid	yn cytuno â	in favour of
manteision	lluosog mantais ; pwyntiau da	advantages
anfanteision	lluosog anfantais ; pwyntiau gwael	disadvantages
ystyried	meddwl yn ddwys am	(to) consider
cyfuno	cymysgu gyda'i gilydd	(to) combine

Blasus?!

 <p>Chris</p>	<p>Oes unrhyw un yn gallu fy helpu i os gwelwch yn dda? Dw i'n cael parti pen-blwydd wythnos nesaf a'r thema ydy "Siocled". Oes gan unrhyw un syniadau am fwyd siocledaidd?</p>
 <p>Matt</p>	<p>Brechdanau siocled ...</p>
 <p>Chris</p>	<p>Neis!</p>
 <p>Alys</p>	<p>Crempogau siocled ...</p>
 <p>Chris</p>	<p>Neis!</p>






 <p>Iolo</p>	<p>Sbageti siocled</p>
 <p>Chris</p>	<p>Na, dw i ddim yn meddwl - bydd o'n gwneud gormod o lanast. Dwyt ti ddim yn nabod fy ffrindiau i!!!</p>
 <p>Imran</p>	<p>Creision siocled ... neu, yn well byth, creision tsili a siocled ...</p>
 <p>Chris</p>	<p>Neis!</p>
 <p>Manon</p>	<p>Cig moch wedi ei ddipio mewn siocled ...</p>

 <p>Chris</p>	<p>Www, neis!</p>
 <p>Jayesh</p>	<p>Pizza siocled ...</p>
 <p>Chris</p>	<p>Beth?!?!</p>
 <p>Jayesh</p>	<p>Pizza siocled – blasus iawn. Gratia siocled yn lle caws ar y pizza ac yna galli di roi fferins bach ar y top. Blasus iawn.</p>
 <p>Lyn</p>	<p>Blasus, efallai, ond afiach. Byddai pizza melon dŵr efo ffrwythau ac ychedig o siocled yn iachach.</p>

 <p>Chris</p>	<p>Sut mae gwneud un o'r rheina?</p>
 <p>Lyn</p>	<p>Wel, torra felon dŵr ar ei draws, rho ffrwythau a thipyn bach o iogwrt ar ei ben ac yna yhydïg - a dw i'n pwysleisio yhydïg - o saws siocled dros y ffrwythau. Dyma lun i ti.</p> 
 <p>Chris</p>	<p>Mae hwnna'n swnio'n flasus ...</p>
 <p>Lyn</p>	<p>... ac yn iach ... a gan ein bod ni'n sôn am fwyd iach, beth am frocoli wedi ei orchuddio â siocled?</p>
 <p>Chris</p>	<p>Beth?!?!?</p>

 <p>Lyn</p>	<p>Mae'n ffordd dda o gael un o dy bum ffrwyth neu lysieuyn bob dydd.</p>
 <p>Chris</p>	<p>Na, dim diolch.</p>
 <p>Matt</p>	<p>Rhaid cael cacen siocled, wrth gwrs.</p>
 <p>Chris</p>	<p>Mmm, blasus – cacen siocled efo eisin siocled ... a hufen siocled yn y canol ... a siapiau siocled ar y top i'w haddurno.</p>
 <p>Lyn</p>	<p>Wel, beth am am gacen ychydig yn iachach ...</p>

 <p>Chris</p>	Fel beth?
 <p>Lyn</p>	Cacen siocled a betys - mae'n iach ...
 <p>Chris</p>	Mmm?!?
 <p>Lyn</p>	... a beth am gacen siocled a banana - mae honna'n iach hefyd.
 <p>Gwyn</p>	... a chacen moron a siocled.

 <p>Chris</p>	<p>Ie, wel ... mmm ... Dw i ddim yn siwr am ddefnyddio llysiau mewn cacen, rhaid i mi ddweud. Beth am ... <i>brownies</i> siocled? Blasus iawn yn enwedig os ydych chi'n rhoi sglodion siocled ynddyn nhw hefyd.</p>
 <p>Lyn</p>	<p>Cytuno – ond beth am <i>brownies zucchini</i> a siocled.</p>
 <p>Chris</p>	<p>Beth ar y ddaear yw "<i>zucchini</i>"?</p>
 <p>Lyn</p>	<p>Courgette.</p>
 <p>Chris</p>	<p>Pam na faset ti'n dweud "courgette" te?</p>

 <p>Lyn</p>	<p>Dw i'n hoffi'r enw "zucchini". Ta waeth, rwyf ti'n defnyddio <i>zucchini</i> – courgette neu gorbwmpen – yn y rysâit yn lle olew neu fenyn. Felly, mae'n llawer iachach.</p>
 <p>Chris</p>	<p>Dw i ddim yn siwr ...</p>
 <p>Jayesh</p>	<p>Fyddda i ddim yn dod i'r parti os wyt ti'n mynd i wneud cacen courgette.</p>
 <p>Lyn</p>	<p>Ond mae'n flasus tu hwnt. A dyma syniad blasus – hawdd ac iach. Banana split efo iogwrt yn lle hufen iâ, ffrwythau ffres ac, os oes rhaid, ychedig – a dw i'n pwysleisio ychedig eto – o siocled.</p>
 <p>Gwyn</p>	<p>Gallet ti wneud bananas siocled hefyd. Torra'r bananas yn ddarnau tua 2 cm. Gorchuddia nhw â siocled. Rho ffon coctel ym mhob un a rhewa nhw. Grêt – a galli di eu paratoi nhw o flaen llaw.</p>

 <p>Chris</p>	<p>Gwych! Diolch am syniadau diddorol. Nawr, yr adloniant a'r addurniadau ...</p>
 <p>Lyn</p>	<p>O, rhaid i fi fynd ...</p>
 <p>Matt</p>	<p>A fi - mae'r gwaith cartref yn galw!?!?</p>
 <p>Gwyn</p>	<p>Rhaid i fi fynd i olchi 'ngwallt. Hwyl fawr.</p>
 <p>Chris</p>	<p>Ond ...</p>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
llanast	annibendod	mess

Cyfrifol!

Rydych chi'n mynd i edrych ar gyflwyniad ar Fasnach deg.

Ewch i: <http://fairtradewales.com/we/resources/general-information-fact-sheets>

Cliciwch ar: [Cyflwyniad dwyieithog- Beth yw Masnach Deg?](#)

A darllenwch y sleidiau Cymraeg.

Siocled Masnach Deg

Mae'r rhan fwyaf o'r coco sy'n cael ei ddefnyddio i wneud siocled yn cael ei dyfu ar ffermydd teuluol bach yng Ngorllewin Affrica. Mae'n waith anodd ac mae llawer o broblemau'n wynebu'r ffermwyr, fel plaon yn ymosod ar y cnydau, tywydd gwael yn effeithio ar y cnydau a'r ffaith bod y pris mae'r ffermwyr yn ei gael am eu cnydau'n gallu amrywio. Mae'n waith anodd am ychydig o arian. Yn wir, mae llawer o'r ffermwyr a'u teuluoedd yn byw bywyd tlawd iawn.

Mae Masnach Deg yn helpu'r teuluoedd hyn drwy dalu pris teg am y coco sy'n cael ei ddefnyddio yn eu siocled nhw. Yn ogystal, maen nhw'n rhoi tâl ychwanegol (premiwm) am bob tunnell maen nhw'n ei brynu. Mae'r ffermwyr yn gallu defnyddio'r arian hwn i wella'u busnes a'r gymuned lle maen nhw'n byw, e.e. drwy adeiladu ffynhonnau ar gyfer cael dŵr glân i'w yfed, adeiladu ysgolion a thoiledau cyhoeddus a threfnu bod clinig meddygol yn ymweld â'r pentrefi.

Mae prynu bar o siocled Divine, sef siocled Masnach Deg, a phrynu nwyddau eraill Masnach Deg, felly, yn helpu'r ffermwyr yn uniongyrchol, yn hytrach nag yn creu elw i gwmnïau mawr.

Mwy o wybodaeth:

I glywed ychydig am waith Fairtrade yn y diwydiant coco, cliciwch ar y wefan yma, lle mae plant o ysgol Gynradd Sant Padarn, Aberystwyth, yn siarad â ffermwr o Ghana: <http://fairtradewales.com/we/ghana>

Am fwy o wybodaeth am waith Masnach Deg yn gyffredinol, cip-ddarllenwch y wybodaeth ar: <http://fairtradewales.com/we/about/what-is-fair-trade>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
plaon	lluosog pla ; afiechydon	diseases, plagues
cnydau	lluosog cnwd ; cynnyrch sy'n cael ei dyfu	crops

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
amrywio	newid, e.e. mynd i fyny ac i lawr	(to) vary
yn uniongyrchol	yn syth	directly
elw	proffid; yr arian sydd dros ben ar ôl talu'r holl gostau	profit

Daionus!

Darllenwch y sgysiau hyn gyda phartner.

Meddygfa 1

Doctor:	Bore da. Sut dach chi heddiw?
Claf:	'Symol, Doctor. 'Symol iawn!
Doctor:	O, be 'dy'r mater?
Claf:	Peswch cas. Dw i'n methu cysgu'r nos yn pesychu.
Doctor:	O diar! Wnewch chi besychu rŵan i mi gael clywed pa fath o beswch sy gynnoch chi?
	<i>(Mae'n peswch ... yn peswch ... ac yn peswch!)</i>
Doctor:	O, mi wela i.
Claf:	Be' dach chi'n weld?
Doctor:	Y broblem ... Mae gynnoch chi beswch cas.
Claf:	Dyna ddudes i ar y dechra yntê?
Doctor:	Ia, wir. Wel, dim angen poeni. Mae gen i'r ateb i'ch problem chi.
Claf:	O?
Doctor:	Siocled!
Claf:	Pardwn?
Doctor:	Siocled! Mae'n ffordd wych o leddfu peswch. O safbwynt methu cysgu yn y nos, yfwch ddiod o siocled poeth cyn mynd i'r gwely. Mi fyddwch chi'n cysgu fel babi wedyn.
Claf:	Siocled. Dyna fo?!?
Doctor:	Ia, am y tro. Hwyl fawr i chi.
Claf:	Hwyl!
	<i>(Mae'n peswch yn gas wrth fynd allan. Mae'r doctor yn agor drôr yn ei ddesg ac yn torri sribed o siocled o far mawr sy'n cuddio yno.)</i>
Doctor:	Aa! Does dim byd fel siocled. Reit, y claf nesaf ...

Meddygfa 2

Doctor:	Bore da. Siwt mae heddi?
Claf:	Ddim yn dda.
Doctor:	O, beth sy'n bod?
Claf:	Dw i wedi blino'n ofnadwy a dw i'n becsu hefyd.
Doctor:	Pam?
Claf:	Mae llawer o waith 'da fi ar hyn o bryd a dw i'n becsu am hyn.
Doctor:	Odych chi'n cysgu?
Claf:	Ddim yn dda iawn.

Doctor:	Wel, rhaid i chi ymlacio mwy.
Claf:	Haws dweud na gwneud.
Doctor:	Odi, mae'n siwr ... ond mae'r ateb 'da fi. Siocled!
Claf:	Pardwn?
Doctor:	Siocled! Mae'n grêt ar gyfer helpu rhywun i ymlacio ac mae'n helpu i ryddhau endorphins yn yr ymennydd hefyd.
Claf:	"Endo" beth?
Doctor:	Endorphins – cemegau yn y corff sy'n lleihau stres ac sy'n gallu gwneud i chi deimlo'n dda.
Claf:	Siocled. Dyna i gyd?!?
Doctor:	Ie, am y tro. Hwyl fawr i chi.
Claf:	Hwyl!
	<i>(Mae'r doctor yn agor drôl yn ei ddesg ac yn torri strîbed o siocled o far mawr sy'n cwato yno.)</i>
Doctor:	Aa! Does dim byd fel siocled. Reit, y claf nesaf ...

Meddygfa 3

Doctor:	Bore da. Sut mae?
Claf:	lawn, diolch.
Doctor:	"lawn?" Wel pam rydych chi yma os ydych chi'n "iawn"?
Claf:	Wel, dw i ddim yn sâl , ond edrychwch ar fy wyneb i. <i>(Mae'n pwyntio at ei wyneb lle mae cannoedd o smotiau.)</i>
Doctor:	O ie, dw i'n gweld. Ydych chi'n bwyta'n iach?
Claf:	Ar y cyfan, ydw, ond mae Mam yn dweud fy mod i'n bwyta gormod o siocled ac mai hyn sy'n rhoi'r smotiau ofnadwy i mi.
Doctor:	Wel, mae gormod o siocled yn ddrwg i chi, wrth gwrs – yn enwedig siocled llaeth, ond dw i ddim mor siwr ydy siocled yn rhoi smotiau i chi.
Claf:	O?
Doctor:	Wel, dydy gwyddonwyr ddim yn gallu cytuno ydy siocled yn rhoi smotiau i chi neu beidio.
Claf:	Wel, diolch am hynny! Galla i fwyta bar o siocled bob dydd felly.
Doctor:	Mmm ... na allwch! Mae pethau eraill mewn siocled – nid jyst coco – pethau fel braster a siwgr ac mae bwyta gormod o'r rhain yn ddrwg i chi.
Claf:	Ond roeddwn i'n meddwl bod bwyta siocled yn gallu bod yn dda i chi.
Doctor:	Yn sicr, mae'n gallu helpu mewn rhai achosion. Mae gwyddonwyr yn meddwl bod siocled yn gallu helpu i leihau'r risg o gael strôc, mae'n gallu helpu person i deimlo'n fwy effro, mae'n gallu helpu pobl i ymlacio ac mae'n gallu helpu i leddfu peswch, ond dydy bwyta gormod o siocled ddim yn dda i chi. Rhaid i chi drin siocled fel trît i'w fwyta bob hyn a hyn, nid fel rhan arferol o'ch diet pob dydd – ac mae siocled tywyll yn well i chi na siocled golau.
Claf:	O, dw i'n gweld. A beth am yr acne?
Doctor:	Bwyd iach ... awyr iach ... digon o ymarfer ... a dyma bresgripsiwn i chi hefyd. Os nad yw'n gwella, dewch yn ôl mewn tri mis.
Claf:	Diolch yn fawr. Hwyl fawr i chi!

Doctor:	Hwyl!
	<i>(Mae'n mynd allan. Mae'r doctor yn agor drôr yn ei ddesg ac yn edrych ar far mawr o siocled sydd yno - heb ei ddechrau.)</i>
Doctor:	Siocled - mae'n iawn o'i fwyta'n gymedrol! Reit, y claf nesaf ...

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
lleddfu	tawelu, gwanhau	(to) ease
o safbwynt	mewn perthynas â, edrych ar rywbeth o gyfeiriad arbennig	point of view
haws dweud na gwneud	mae'n haws siarad am rywbeth na'i wneud	easier said than done
ar y cyfan	gan fwyaf	on the whole
cymedrol	heb fod yn ormodol	in moderation


Ffrwydro!

Faint rydych chi'n ei wybod am yr Ail Ryfel Byd? Beth am roi cais ar y cwis hwn? Ar ôl ateb, cliciwch ar bob cwestiwn.

CWIS ... CWIS ... CWIS ...

1. **Pryd dechreuodd yr Ail Ryfel Byd?**
Yn 1939
2. **Pwy oedd prif weinidog Prydain ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd?**
Neville Chamberlain
3. **Pwy oedd prif weinidog Prydain o 1940 tan 1945, y dyn wnaeth arwain Prydain yn ystod y rhyfel?**
Winston Churchill
4. **Pwy oedd arweinydd yr Almaenwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd?**
Adolf Hitler
5. **Beth oedd y digwyddiad wnaeth arwain at yr Ail Ryfel Byd?**
Goresgynnodd yr Almaen Wlad Pwyl.
6. **Pa ddwy wlad oedd y cyntaf i ymuno yn y Rhyfel?**
Prydain a Ffrainc
7. **Pa wlad arhosodd yn niwtral drwy gydol y rhyfel, h.y. wnaeth hi ddim cymryd rhan yn y rhyfel?**
Y Swistir
8. **Pa 6 gwlad oedd wedi eu goresgyn gan yr Almaen erbyn 1940?**
Gwlad Pwyl, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, Ffrainc, Denmarc a Norwy

DIG FOR VICTORY



9. **Beth oedd pwrpas y poster hwn?**

Annog pobl i dyfu llysiau a ffrwythau yn eu gerddi gan fod bwyd mor brin.

10. **Ym mha flwyddyn llwyddodd Prydain i ryddhau Ffrainc o afael yr Almaen?**

Yn 1944

11. **Beth oedd yr Holocaust?**

Roedd yr Almaenwyr yn carcharu Iddewon mewn gwersylloedd creulon ac yn eu poenydio a'u lladd. Credir bod tua 6 miliwn o Iddewon wedi eu lladd a'r enw am hyn yw'r Holocaust.

12. **Beth oedd enw'r ferch ifanc o'r Iseldiroedd ysgrifennodd am ei phrofiadau yn cuddio rhag yr Almaenwyr?**

Anne Frank oedd hi. Roedd hi'n Iddewes ac ysgrifennodd hi am ei phrofiadau mewn dyddiadur.

13. **Roedd bwyd yn brin iawn adeg y rhyfel ac felly roedd rhaid rheoli faint roedd pawb yn ei gael. Beth oedd yr enw ar y broses hon?**

Dogni

14. **Pa ddantaith gafodd ei ddyfeisio yn ystod y Rhyfel i gymryd lle siocled – gan fod siocled yn brin?**

Nutella – pâst wedi'i wneud o siwgr, cnau cyll ac ychydig o goco a oedd yn brin iawn. Cafodd ei ddyfeisio gan ddyn o'r enw Pietro Ferrero, mewn tref of enw Alba, yn yr Eidal, ardal lle roedd digonedd o goed cyll yn tyfu.

15. Pryd gorffennodd yr Ail Ryfel Byd?

Yn 1945

16. Pa ddigwyddiad wnaeth arwain at ddiwedd yr Ail Ryfel Byd?

Gollyngwyd bomiau atomig ar ddwy ddinas yn Japan – Hiroshima a Nagasaki – a lladdwyd miloedd o bobl.

Sut sgorioch chi, tybed?

Wel, tybed oeddech chi'n gwybod am y cynllwyn cyfrwys hwn oedd i fod i helpu'r Almaenwyr i ennill yr Ail Ryfel Byd ...?

Ffrwydrol!

Yn 1943, roedd gan y Natsïaid gynllun cyfrwys iawn i geisio lladd Winston Churchill, prif weinidog Prydain. Roedden nhw'n mynd i'w ladd â ...

... siocled!!!

Dechreuodd rhai o'r bobl a oedd yn gwneud bomiau'r Natsïaid greu bom arbennig iawn. Roedd e ar ffurf bar pwys o "siocled". Roedd y bar yn edrych fel siocled yn wir, ond o dan haenen o siocled tywyll blasus, roedd dur a ffrwydron yn cuddio. Yna, gorchuddiwyd y bar â phapur du ac aur drud a oedd yn dangos enw'r cwmni siocled - Peter's Chocolate.

Y bwriad oedd bod sbïwyr yr Almaen, a oedd yn gweithio ym Mhrydain, yn gwneud yn siwr bod y siocled yn cael ei gymryd i mewn i ystafell fwyta Cabinet y Rhyfel. Yna, byddai rhywun yno - Winston Churchill ei hun, o bosib - yn dewis y bar, yn agor y pecyn ac yn torri darn o'r siocled ac yna ...

... BANG!!!! ...

Byddai hyn yn siwr o ladd y prif weinidog.



Llun: Sir Winston S Churchill - United Nations Information Office, New York (Library of Congress, Reproduction number LC-USW33-019093-C)

Yn ffodus, daeth sbïwyr o Brydain i wybod am y cynllun a'i atal.

Yn dilyn hyn, gofynnodd yr Arglwydd Victor Rothschild, un o brif swyddogion MI5 ar y pryd, i ddyn o'r enw Laurence Fish ddylunio posteri yn dangos y bariau siocled ffrwydrol er mwyn rhybuddio'r cyhoedd.

Mae'n bosib gweld y poster ar y wefan

hon: <https://www.thevintagenews.com/2018/08/04/hitler-vs-churchill/>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
goresgyn	concro	(to) conquer
prin	dim llawer ar gael	rare
poenydio	trin rhywun yn greulon tu hwnt gan achosi poen ofnadwy	(to) torture
dantaith	rhywbeth blasus tu hwnt	delicacy
dyfeisio	creu rhywbeth am y tro cyntaf	(to) invent
cnau cyll	cnau sy'n tyfu ar goed cyll	hazelnuts
cynllwyn	cynllun cyfrwys	plot
ar ffurf	yn edrych fel	in the form of
gorchuddio	rhoi gorchudd neu haenen dros rywbeth	(to) cover
bwriad	nod, amcan	intention
atal	stopio	(to) prevent, stop

Gwarthus!

24 Medi 2018

Annwyl Olygydd,

Mae'r bariâu a'r bocsys lliwgar o siocled sy'n dechrau ymddangos ar silffoedd ein siopau a'n harchfarchnadoedd yn dangos bod y Nadolig ar y ffordd! Maen nhw'n ddeniadol ... maen nhw'n gyffrous ac, yn sicr, maen nhw'n cynnig danteithion blasus tu hwnt.

Meddylwch am funud am y tri ansoddair yna: "deniadol", "cyffrous" a "blasus"! Mor wahanol ydyn nhw i'r ansoddeiriau y gellid eu defnyddio i ddisgrifio profiad y ffermwyr sy'n tyfu'r ffa sy'n cynhyrchu'r siocled. Byddai'r ansoddeiriau "tlawd", "truenus" a "digalon" yn fwy addas ar gyfer eu bywyd nhw – bywyd o weithio di-baid er mwyn gwneud yn siwr ein bod ni'n cael ein gwala o siocled dros y Nadolig. Yn wir, ychydig iawn ohonyn nhw sydd hyd yn oed wedi gweld y mathau amrywiol o siocled rydyn ni'n eu bwyta, heb sôn am eu blasu! Na, treulio oriau caled yn cynhyrchu a gwerthu ffa coco maen nhw'n ei wneud, heb brofi'r pleser o gnoi i mewn i strïbed o siocled, teimlo'r crac wrth iddo hollti'n rhydd o'r bar ac yna mwynhau'r melyster bendigedig sy'n llenwi'r geg. A dyma her i chi. Cymharwch y ddau lun yma:



Mae'r rhain yn dangos y bwlch enfawr sy'n bodoli rhwng plant a phobl ifanc y gorllewin sy'n cael mwynhau'r fath ddanteithion, a chaledi bywyd plant a phobl ifanc sy'n gweithio fel caethweision ar rai o'r ffermydd coco.

Oeddech chi'n gwybod bod dros 2 filiwn o blant a phobl ifanc yn gweithio ar ffermydd coco hyd yn oed heddiw? Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw rhwng 12 ac 16 oed er bod rhai mor ifanc â 5 yn gweithio yno hefyd. Mae rhai'n dringo'r coed er mwyn torri'r ffrwythau; yna, gyda machete, heb unrhyw fenig diogelwch, maen nhw'n hollti'r podiau ar agor – gallai pob trawiad o'r machete dorri llaw'r plentyn i ffwrdd. Mae rhai'n pacio ac eraill yn cario sachau trwm; mae rhai'n defnyddio llifiau cadwyn i dorri coed, eto heb ddillad diogelwch. Mae rhai'n chwistrellu chwynleiddiaid ar y tir, gan anadlu'r cemegau, gan nad oes ganddyn nhw fwgwd dros eu cegau a'u trwynau ac mae rhai'n tynnu cartiau. Hyn i gyd er mwyn sicrhau ein bod ni'n cael Santa siocled ... neu far mawr o siocled ... neu focs o siocledi yn ein sanau Nadolig eleni! Yn lle'r pensil, y machete yw offer arferol y rhain. Yn lle'r ystafell ddosbarth, coedwig o goed coco yw eu haddysg – neu eu diffyg addysg!

Nid hynny'n unig, ond ydych chi erioed wedi ystyried yr effaith mae'r siocledi byddwch chi'n eu cael dros y Nadolig yn ei gael ar yr amgylchedd? Wrth i'n hawydd ni am siocled gynyddu, mae'r ffermydd coco'n tyfu'n fwy, ac felly mae mwy a mwy o dir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu coco. Beth yw effaith hyn? Clirio ardaloedd mawr, gan gynnwys rhannau o'r fforestydd glaw, er mwyn gwneud lle i fwy a mwy o goed ... a mwy a mwy o goco ... a mwy a mwy o siocled! Mae hyn, wrth gwrs, yn bygwth bioamrywiaeth yr ardaloedd ac mae cemegau'n difetha'r tir ac yn gwenwyno'r dŵr.

Ble byddwch chi'n prynu'ch siocledi eleni? Mewn siop siocledi ... ar y we ... neu mewn archfarchnad o bosib – lle bynnag maen nhw rhataf mae'n siwr! Ond cofiwch, da chi, bydd pris y siocled yn uchel ble bynnag byddwch chi'n ei brynu!

Yn gywir

Will Smith

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
danteithion	lluosog dantaith ; bwyd blasus tu hwnt	delicacies
di-baid	heb ddiwedd	endless
gwala	digonedd	fill
melyster	enw sy'n gysylltiedig â melys	sweetness
caethweision	lluosog caethwas ; pobl sy'n cael eu gorfodi i weithio mewn amgylchiadau anodd heb dâl	slaves
llifau cadwyn	lluosog llif gadwyn ; llifiau gyda'r dannedd wedi eu gosod ar gadwyn	chainsaws
chwistrellu	saethu hylif allan drwy chwistrell neu bibell	(to) spray
chwynleiddiad	cemegau sy'n lladd chwyn	weedkillers
awydd	dymuniad	desire
difetha	distrywio	(to) destroy